| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Medi 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd.** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Asedau a Risg** |
| **Teitl:** | **Parodrwydd ar gyfer Cynnal a Chadw'r Gaeaf ar gyfer Tymor 2013 / 14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Egluro'r paratoadau am raglen gynnal a chadw'r gaeaf 2013/2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â chyflawni llwybrau diogelach ar gyfer trigolion y sir a sicrhau fod y sir yn parhau ar agor ar gyfer busnes yn ystod amodau tywydd garw**.**

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai Aelodau ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a gwneud sylw ar y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer Cynnal a Chadw'r Gaeaf ac a fyddant yn ddigonol ar gyfer gaeaf arferol ond byddwn yn ymateb i amodau tywydd mwy garw gydag ystyriaethau wrth gefn.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1.1 Ar gyfer 2013/2014 rydym wedi gwneud rhai mân addasiadau i'n hymagwedd at gynnal a chadw'r gaeaf a phwrpas yr adroddiad hwn yw amlygu'r newidiadau a'r gwelliannau hynny. Dylai Aelodau hefyd nodi ein bod yn cynnal arfer da a brofwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, a ddangoswyd amlycaf yn yr eira trwm ym mis Mawrth 2013.

Yn gyntaf oll, bydd 11 o lwybrau graeanu yn parhau i wasanaethu'r sir fodd bynnag, yn dilyn adolygiad, nodwyd nad yw'r llwybrau hyn yn dilyn hyd a lled y brif rwydwaith fysiau. O ganlyniad, mae tri o'r llwybrau wedi'u diwygio a'u hymestyn a bydd hyn rŵan yn golygu bod lefel uwch o wasanaeth yn ardaloedd Cwm, Llangwyfan/Llangynhafal a Derwen/Clawddnewydd.

4.1.2 Er mwyn cadw at ddeddfwriaeth yn ymwneud ag oriau gwaith gyrwyr, mae angen isafswm o 33 i gyflawni'r amserlenni ond byddwn yn defnyddio gyrwyr wrth gefn unwaith eto i roi gwydnwch ychwanegol i ni; system sydd wedi gweithio'n dda dros yr ychydig dymhorau diwethaf.

4.1.3 O safbwynt ein hoffer ni, mae pedwar cerbyd graeanu newydd ar fin cael eu dosbarthu i ni a fydd yn cymryd lle rhannau o'n fflyd a oedd yn dechrau heneiddio. Bydd y pedwar cerbyd yn eu lle erbyn canol mis Hydref

4.1.4 Unwaith eto, rydym yn dal i dderbyn gwasanaeth nifer o Gontractwyr Amaethyddol a byddant yn cynnig gwasanaeth cefnogi i weddill y rhwydwaith gwledig os bydd unrhyw eira'n syrthio. Roedd gan un o'r rhain y gallu i ledaenu halen y llynedd yn ardal Llangollen a phrofodd hyn i fod yn arbennig o effeithiol. O ganlyniad, rydym ar hyn o bryd yn caffael o leiaf un peiriant lledaenu ychwanegol (i'w ddefnyddio yn ardal Bryneglwys) a byddwn yn ystyried ymestyn y ddarpariaeth hon ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

4.1.5 Erbyn dechrau'r tymor ym mis Hydref bydd yr holl halen rydym wedi'i archebu hyd yn hyn wedi'i ddosbarthu a bydd hyn yn golygu fod gennym gyfanswm stoc o ychydig llai na 10,000 tunnell fetrig. Mae'r gwaith i roi arwyneb caled yn ein depo yn Rhuthun wedi gwneud gwahaniaeth eithriadol ac mae modd i ni gynyddu ein gallu yma yn sylweddol. Bydd rhagor o halen yn cael ei ddosbarthu wedyn wrth i'r tymor fynd yn ei flaen.

Efallai y bydd Aelodau'n ymwybodol ein bod wedi bod yn defnyddio halen wedi'i drin yn ein depo yng Nghinmel dros y blynyddoedd diwethaf a oedd a gallu uwch i aros ar wyneb y ffordd yn hirach. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau eraill yn y cyfraddau lledaenu halen a argymhellir a'n hadolygiad ni o gostau, rydym wedi penderfynu symud yn ôl i ledaenu halen sych safonol ar ein holl lwybrau, ac adlewyrchwyd y newid hwn wrth i ni ail gyflenwi stociau.

Mae ein cyflenwr rŵan wedi crynhoi'r stoc strategol yn y gloddfa yn Sir Gaer a oedd yn bodoli cyn y gaeafau caled blaenorol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adeiladu Storfa Halen Strategol yn Rhuallt a bydd gennym fynediad iddi os bydd yr angen yn codi.

4.1.6 Bydd pentyrru halen ac ail lenwi biniau halen yn dechrau ddiwedd Medi ac wedi'i gwblhau cyn diwedd mis Hydref. Ein bwriad yw ail gyflenwi'r rhain ar ôl unrhyw gyfnod o dywydd gaeafol.

4.1.7 Bydd y trefniadau amserlen arferol ar gyfer rhagolygu a goruchwylio mewn grym gan felly sicrhau bod darpariaeth lawn ar gael 24 awr y dydd a gellir cynyddu'r rhain pan fod yr amodau'n galw.

4.1.8 Bydd y strategaeth gyfathrebu a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ar y cyd â'r tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cael eu defnyddio unwaith eto gan fod hyn wedi profi i fod yn arbennig o effeithiol. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyhoeddi fod ffyrdd ac ysgolion ar gau. Mae adroddiadau dyddiol

eisoes yn cael eu hanfon yn nodi gweithredoedd y dydd a'r rhagolygon ar gyfer y pum niwrnod nesaf.

4.1.9 Os bydd y tywydd yn troi'n arbennig o arw, mae gennym drefniadau wrth gefn gyda swyddogion a staff yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad a Pharthau Cyhoeddus sy'n gallu cynorthwyo gan fod ganddynt hefyd fynediad i gerbydau 4 x 4 i ategu ein fflyd ni ein hunain.

4.1.10 I gloi, rydym yn teimlo ein bod ni wedi paratoi am y gaeaf gystal ag y gallem ni fod o fewn rheswm.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n flaenoriaeth i'r gwasanaeth fod gan drigolion ac ymwelwyr i Sir Ddinbych fynediad i rwydwaith ffyrdd diogel wedi'i rheoli'n dda ac mae darparu gweithgarwch cynnal a chadw'r gaeaf amserol ac effeithiol yn agwedd hanfodol o'r nod hon.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae cyllideb sail o £709K o'r dyraniad refeniw Priffyrdd gyda chynlluniau wrth gefn pellach ar gael os bydd y tywydd yn fwy garw na'r cyfartaledd. Dylid nodi bod y tywydd garw ym mis Mawrth wedi golygu bod yn rhaid defnyddio'r ddarpariaeth wrth gefn ac efallai yr hoffai Aelodau nodi fod y deg diwrnod o weithgarwch clirio eira yn unig ym mis Mawrth wedi costio £176,000, felly gall tywydd garw gael effaith sylweddol ar gyllidebau.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Mae darparu gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Gaeaf yn ofyniad statudol bellach dan Adran 41(1A) Deddf Priffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd gan adran 11a Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Chludiant 2003. Mae'r graddau y mae'n ofynnol i ni gyflawni'r ddyletswydd hon yn fater i'w drafod ond derbynnir fod y llwybrau graeanu a gyhoeddwyd gennym yn rhoi'r ddarpariaeth isafswm y byddai disgwyl i ni ei gyflawni. Byddai mynd y tu hwnt i hyn yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chyfranogion i benderfynu ar yr ymagwedd orau tuag at hyn.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae dyraniad cyllideb sylweddol o £709k i'r gwasanaeth hwn i sicrhau y gallwn ymdopi'n iawn gyda thywydd garw. Mae darpariaeth wrth gefn ar wahân o £226k ar gael ar gyfer unrhyw aeafau arbennig o arw. Defnyddiwyd cyfanswm o £176 o arian wrth gefn y llynedd oherwydd y tywydd garw.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Fel y nodwyd yn Adran 7 uchod, mae hon yn ddyletswydd statudol a gellir dal yr Awdurdod yn gyfrifol os byddwn ni'n methu cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Mae'r potensial i nifer o bethau fynd yn anghywir (gyrwyr yn methu dod i'r gwaith, cerbydau'n torri i lawr ac ati) ond rydym yn credu hyd eithaf ein gallu ein bod wedi lliniaru yn erbyn y risgiau hyn gymaint â phosibl. Dim ond rhai o'r rhain yw cerbydau sbâr, trefniadau atodol wrth gefn, cytundebau dwyochrog gyda chynghorau eraill er mwyn sicrhau y gellir rhannu cyflenwadau halen.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Priffyrdd 1980

Erthygl 6.3 Cyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Asedau a Risg
Ffôn:  01824 706875